CAERDYDD
CARDIFF

DINAS A SIR CAERDYDD
CITY AND COUNTY OF CARDIFF

| | |
|---|---|
| **GWYS Y CYNGOR** | DYDD IAU, 23 GORFFENNAF 2015 |
| **COUNCIL SUMMONS** | THURSDAY, 23 JULY 2015, |

Fe'ch gwysir I fynychu cyfarfod **CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD**, a gynhelir yn Council Chamber - City Hall on Dydd Iau, 23 Gorffennaf 2015 at 4.30 pm I drafod y materion a nodir yn yr agenda atodedig.

**MARIE ROSENTHAL**
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Llywodraethu a Chyfreithiol

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW

Dydd Gwener, 17 Gorffennaf 2015

| Eitem | | Amser oddeutu | Amser Max Allotted |
|---|---|---|---|
| **1** | **Ymddiheuriadau am absenoldeb**<br><br>*Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.* | 4.30 pm | 5 mins |
| **2** | **Gwe-ddarlledu a Recordio'r Cyfarfod**<br><br>*Cymeradwyaeth ffurfiol i recordio'r cyfarfod.* | | |
| **3** | **Datganiadau o fuddiant**<br><br>*Derbyn datganiadau buddiannau (i'w gwneud yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau)* | | |
| **4** | **Cofnodion**<br>*(Tudalennau 1 - 52)*<br><br>*Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2015 fel cofnod cywir* | 4.35 pm | 5 mins |
| **5** | **Is-etholiad Pentyrch**<br><br>*Cyflwyno adroddiad ar ganlyniad Is-etholiad Pentyrch a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2015* | 4.40 pm | 5 mins |
| **6** | **Deisebau**<br><br>*Cael deisebau gan Aelodau Etholedig i'r Cyngor* | 4.45 pm | 5 mins |
| **7** | **Cwestiynau gan y Cyhoedd**<br>*(Tudalennau 53 - 54)*<br><br>*Cael cwestiynau gan Aelodau o'r Cyhoedd yn unol â Rheol 18 Gweithdrefn y Cyngor* | 4.50 pm | 15 mins |
| **8** | **Cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer**<br><br>*Cael cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer, gan gynnwys Cydnabyddiaethau a Gwobrau.* | 5.05 pm | 5 mins |
| **9** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau a Moeseg 2014/15**<br>*(Tudalennau 55 - 74)*<br><br>*Cael yr Adroddiad Blynyddol a gyflwynir gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau a Moeseg, Mr Richard Tebboth* | 5.10 pm | 15 mins |
| **10** | **Pwyllgor Safonau a Moeseg – Ailbenodi Aelod Annibynnol**<br>*(Tudalennau 75 - 76)* | 5.25 pm | 5 mins |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *Aoddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol* | | |
| **11** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**<br>*(Tudalennau 77 - 92)*<br><br>*Cael yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2014/15 gan Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer 2014/15, y Cynghorydd Jayne Cowan* | 5.30 pm | 15 mins |
| **12** | **Strategaeth Gyllidebol 2016/17 a'r Tymor Canolig**<br>*(Tudalennau 93 - 150)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a'r Swyddog Adran 151* | 5.45 pm | 60 mins |
| **13** | **Argymhellion Pwyllgor y Cyfansoddiad – Gwe-ddarlledu, Cwestiynau Craffu gan y Cyhoedd a Mân Ddiwygiadau i'r Cyfansoddiad**<br>*(Tudalennau 151 - 180)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol* | 6.45 pm | 10 mins |
| **14** | **Datganiadau'r Arweinydd a'r Cabinet**<br><br>*Derbyn datganiadau gan yr Arweinydd ac Aelodau'r Cabinet* | 6.55 pm | 30 mins |
| **15** | **Rhybydd o Gynnig**<br><br>**<u>Cynnig</u>**<br><br>Noda'r Cyngor y canlynol:<br>• Oherwydd problemau gyda'r system wresogi, mae Llyfrgell y Rhath wedi bod ar gau dros dro ers Tachwedd 2014;<br>• Ers hynny, oherwydd dŵr yn gollwng drwy'r to, mae cyflwr yr adeilad wedi dirywio ymhellach;<br>• Mae Llyfrgell y Rhath yn gwasanaethu un o ardaloedd mwyaf difreintiedig Caerdydd, gyda'r pedair Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is agosaf yn y chwartel isaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig Caerdydd;<br>• Mae dros 1,100 o bobl wedi llofnodi deisebau yn galw ar Gyngor Caerdydd i drwsio ac ailagor Llyfrgell y Rhath;<br>• Mae'r Cabinet am gadw'r gwasanaethau llyfrgell yn | 7.25 pm | 30 mins |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Llyfrgell y Rhath drwy Drosglwyddiad Ased Cymunedol yn hytrach nag ariannu'r atgyweiriadau angenrheidiol ei hun;<br>Noda'r Cyngor y canlynol hefyd:<br>• Yn ôl adroddiad y Cabinet ar 16 Gorffennaf 2015, mae atgyweiriadau a difrod mewnol wedi'u cwmpasu gan yswiriant;<br>• Mae swm sylweddol o gyllid A106 ar gael o ddatblygiadau yn ward Adamsdown;<br>• Sicrhaodd penderfyniad y Cyngor ar 26 Chwefror 2015 gyllid parhaus ar gyfer llyfrgelloedd cangen oni bai y gellid dod o hyd i drefniadau darparu amgen;<br>Gan hynny, mae'r Cyngor hwn:<br>• Yn ailddatgan y bydd yn parhau i ariannu gwasanaethau llyfrgell cangen tan ddiwedd tymor y Cyngor, oni bai a/neu tan bod trefniadau amgen yn cael eu gweithredu.<br>• Yn amodol ar gytundeb ag Aelodau Lleol, yn galw ar y Cabinet i ystyried defnyddio cyllid A106 fel sail i gyflawni'r atgyweiriadau angenrheidiol i sicrhau bod Llyfrgell y Rhath yn ailagor fel ased cymunedol hanfodol heb oedi pellach.<br>**Cynigiwyd gan:** Y Cynghorydd Nigel Howells<br>**Eiliwyd gan:** Y Cynghorydd Joseph Carter | | |
| **16** | **Cwestiynau Llafar**<br>*Cwestiynau llafar i'r Arweinydd, Aelodau'r Cabinet, Cadeiryddion Pwyllgorau a/neu Aelodau enwebedig o'r Awdurdod Tân* | 7.55 pm | 90 mins |
| **17** | **Materion Brys** | 9.25 pm | 5 mins |
| **Materion y Cyngor nas Gwrthwynebir** | | | |
| **18** | **Penodi Llywodraethwyr Ysgol yr Awdurdod Lleol** *(Tudalennau 181 - 186)*<br>*Adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Llywodraethu a Chyfreithiol* | 9.30 pm | 5 mins |
| **19** | **Materion sy'n ymwneud â Chydbwysedd Gwleidyddol ac Aelodaeth y Pwyllgor** | 9.35 pm | 5 mins |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *(Tudalennau 187 - 196)*<br><br>*Adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Llywodraethu a Chyfreithiol*<br><br>*Mae'r Cyfansoddiad yn nodi y bydd y Cyngor yn penderfynu ar y seddi i'w dyrannu i grwpiau gwleidyddol yn unol ag Adran 17 rheolau Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 mewn perthynas â Chydbwysedd Gwleidyddol.*<br><br>*Gofynnir i'r Cyngor dan yr eitem hon gymeradwyo trefniadau amgen i sicrhau cymesuroldeb gwleidyddol llwyr o ran penodiadau i'r holl bwyllgorau, a rhaid sicrhau pleidlais unfrydol yn hyn o beth.* | | |
| **20** | **Penderfyniad Brys mewn perthynas ag (i) Ysgol Uwchradd Cantonian a (ii) Ffeinal Cynghrair y Pencampwyr UEFA 2017**<br>*(Tudalennau 197 - 200)*<br><br>*Cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor er gwybodaeth dan Reol Gweithdrefn Graffu 13(a) Cyfansoddiad Caerdydd.*<br><br>*Adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Llywodraethu a Chyfreithiol* | 9.40 pm | 5 mins |
| **21** | **Cwestiynau Ysgrifenedig**<br><br>*Yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, caiff Cwestiynau Ysgrifenedig a ddaw i law i'w hystyried a'r ymateb iddynt eu cyhoeddi ar Wefan y Cyngor cyn y cyfarfod a chaiff ei gynnwys fel cofnod yng nghofnodion y cyfarfod* | | |